

DISGRIFIAD O'R SWYDD

TEITL Y SWYDD: *Ymarferydd Tîm o Amgylch y Denantiaeth (TAtT)*

LLEOLIAD Y SWYDDFA: *I'w gadarnhau – Conwy neu Wrecsam*

RHEOLWR LLINELL: *Rheolwr TAtT*

CYFRIFOLDEBAU GORUCHWYLIO: *Dim*

PRIF BWRPAS Y SWYDD:

Cynllun peilot un flwyddyn yw gwasanaeth TAtT sy'n cael ei ariannu gan 'Darpariaeth a Chymorth Addas – Cronfa Arloesi' Llywodraeth Cymru.

Nod gwasanaeth TAtT yw gwneud digartrefedd ar gyfer pobl ifanc sy'n derbyn gofal 'yn brin, yn fyr ac yn anghylchol' a mynd i'r afael ag ynysigrwydd ac unigrwydd. Bydd y gwasanaeth yn darparu'r sgiliau, yr wybodaeth a'r rhwydweithiau cymorth angenrheidiol i bobl ifanc er mwyn iddynt gynnal tenantiaeth yn awr ac yn y dyfodol. Yn benodol, bydd y gwasanaeth yn targedu pobl ifanc rhwng 18 a 25 oed sydd:

- Mewn tenantiaeth newydd
- Mewn perygl o golli eu tenantiaeth
- Wedi colli tenantiaeth
- Yn ddigartref

Bydd atgyfeiriadau at TAtT yn cael eu derbyn yn uniongyrchol, drwy asiantaethau partner neu drwy ein gwasanaethau presennol. Bydd pobl ifanc yn cael eu paru ag ymarferydd TAtT a gallant fanteisio ar raglen hyd at 10 wythnos sy'n cyfuno datblygu sgiliau, meithrin hyder a pherthynas ag eraill. Bydd y rhaglen yn cael ei haddasu i anghenion pob person ifanc unigol a gallai gynnwys:

- Eiriolaeth ym maes tai.
- Mentora gyda'r nod o integreiddio pobl ifanc i wasanaethau a gweithgareddau lleol
- Dulliau Adferol / gwasanaeth Cyfarfod Grwpiau Teulu sy'n cynnwys y teulu, ffrindiau a gweithwyr proffesiynol i siarad, cynllunio a gwneud penderfyniadau. Mae'r broses hon yn cynnwys nodi a llunio rhwydweithiau cymorth, meithrin, cynnal, a phan fo angen, adfer perthnasoedd a chanolbwyntio ar gynllunio tymor hwy.
- Cwmsela.
- Datrys gwrthdaro.
- Ymyriadau rhesymol eraill a nodwyd gan y person ifanc, gyda'r nod o wneud digartrefedd yn brin, yn fyr ac yn anghylchol.

Bydd ymarferwyr TAtT yn darparu gwasanaeth i bobl ifanc a'u teuluoedd yn unol â'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth.

DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

1. Derbynn atgyfeiriadau yn unol â meini prawf cytunedig.
2. Esbonio i bobl ifanc sut y gallai'r gwasanaeth eu helpu gyda'u problemau/anawsterau a cheisio cael eu caniatâd i'w atgyfeirio.
3. Paratoi / Annog / Cefnogi / Galluogi pobl ifanc, aelodau o'r teulu a gweithwyr proffesiynol i ymgysylltu a chyflawni'r canlyniadau y maent yn eu dymuno
4. Darparu ymyriadau gan ddefnyddio amrywiaeth o fethodolegau gan gynnwys Dulliau Adferol, Datrys Anghydfodau a Chyfarfodydd Grŵp Teulu.
5. Sicrhau bod cyfle cyfartal ac ymarfer gwrthwahaniaethol yn cael eu cynnal, a bod safonau TGP Cymru yn cael eu cymhwyso yn y cyswllt hwn.
6. Gweithio mewn partneriaeth â phobl ifanc gan sicrhau bod eu llais yn ganolog i'r broses.
7. Helpu'r Rheolwr Tîm i asesu cynnyrch y Gwasanaeth o'i gymharu â'r fframwaith o ganlyniadau cytunedig drwy fonitro gweithgarwch a chasglu gwybodaeth briodol gan gynnwys sylwadau gan ddefnyddwyr gwasanaeth.
8. Sicrhau bod pryderon diogelu sy'n codi yn cael eu nodi a bod penderfyniadau priodol yn cael eu gwneud o ran asesu risg a chyfeirio at y Gwasanaethau Cymdeithasol.
9. Sicrhau bod ymyriadau'n cael eu rheoli o fewn y dyraniad y cytunwyd arno.
10. Cydymffurfio â systemau ariannol a gweinyddol y Gwasanaeth yn unol â pholisïau a gweithdrefnau TGP Cymru.
11. Sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw yn unol â pholisïau a gweithdrefnau TGP Cymru ar gofnodi, rheoli a diogelu data.
12. Cadw cyfrinachedd o ran gwybodaeth gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gweithwyr proffesiynol yn unol â pholisïau TGP Cymru
13. Cysylltu ag atgyfeirwyr
14. Rhwydweithio yn briodol yn y gymuned
15. Gweithio ar y cyd â chydweithwyr.
16. Codi ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a brwdfrydedd tuag at waith y Gwasanaeth, ymhlith gweithwyr proffesiynol perthnasol.
17. Cysylltu a thrafod â gweithwyr proffesiynol perthnasol er mwyn sicrhau bod swyddogaethau, cyfrifoldebau, disgwyliadau a chyfraniadau yn cael eu trefnu, eu deall a'u gweithredu'n glir.
18. Dyletswyddau a chyfrifoldebau eraill efallai y bydd eu hangen o fewn rheswm gan y Sefydliad ac sy'n gyson â'r radd.

AMODAU GWAITH

37 awr yr wythnos

Mae angen gwneud rhywfaint o waith y tu allan i oriau swyddfa, sy'n gofyn am agwedd hyblyg at yr wythnos waith. Efallai y bydd angen gweithio yn ystod y penwythnos gydag ambell i arhosiad dros nos i fynd i hyfforddiant / cynadleddau / digwyddiadau neu rywbeth tebyg

Teithio i leoliadau amrywiol sy'n gwneud trwydded yrru lawn a bod â chludiant gennych yn angenrheidiol

Cymwyseddau craidd (Yn gymwys i bob aelod o staff)

Cyfathrebu'n Effeithiol:	Mynegi gwybodaeth a syniadau mewn modd clir, cryno a chywir; yn gwrandao'n weithredol ac yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu
Parchu Gwahaniaethau Unigol a Diwylliannol:	Dangos y gallu i weithio'n adeiladol gyda phobl o bob diwylliant, rhyw a chefnidir
Dangos Ysbryd Tîm:	Meithrin cydberthnasau effeithiol â chydweithwyr ac aelodau'r tîm yn ac ar draws y sefydliad
Rheoli Eich Hun:	Rheoli eich ymddygiad eich hun mewn modd hunanfyfyriol a chwilio am gyfleoedd i ddysgu'n barhaus ac am dwf proffesiynol
Cynhyrchu Canlyniadau:	Cynhyrchu canlyniadau o ansawdd mewn modd amserol sy'n canolbwyntio ar y gwasanaeth ac ymrwymo i gyflawni canlyniadau cytunedig
Croesawu Newid:	Yn agored i ymagweddau a syniadau newydd, yn ymateb yn gadarnhaol i newid ac yn addasu'n gyflym i sefyllfaoedd newydd

MANYLEB YR UNIGOLYN

(Yn benodol i'r swydd hon)

Wrth lenwi eich ffurflen gais, sicrhewch eich bod yn cynnwys tystiolaeth o sut yr ydych yn bodloni yr holl feini prawf/ofynion hanfodol a amlinellir. Os ydych yn bodloni unrhyw rai o'r gofynion dymunol, dylech gynnwys tystiolaeth o hyn hefyd. Cyn llenwi'r ffurflen gais, dylech sicrhau eich bod yn darllen:-

*'Canllawiau ar gyfer llenwi'r ffurflen gais'

*'Canllawiau ynglŷn ag ysgrifennu datganiadau cymhwysedd ar gyfer cais am swydd'

GOFYNION:	HANFODOL/ DYMUNOL	SUT Y CÂNT EU MESUR Ffurflen Gais (FfG) Cyfweiliad (C) Dogfennau (D) Prawf (P)
<p>Profiad</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd mewn sefyllfaoedd cymhleth gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar gryfderau • Gweithio gyda phobl 18-25 oed • Darparu ymyriadau â chyfyngiad amser arnynt • Gwaith amlasiantaethol 	<p>H</p> <p>H</p> <p>H</p> <p>H</p>	<p>FfG-C</p> <p>FfG-C</p> <p>FfG-C</p> <p>FfG-C</p>
<p>Sgiliau, Gwybodaeth a Dealltwriaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> • Teuluoedd a pherthnasoedd mewn cysylltiad â phobl ifanc sy'n gadael gofal • Digartrefedd a phobl ifanc sy'n gadael gofal • Cyfarfodydd Grwpiau Teulu / Ymarfer Adferol / Datrys Gwrthdaro • Diogelu 	<p>H</p> <p>H</p> <p>H</p> <p>H</p>	<p>FfG-C</p> <p>FfG-C</p> <p>FfG-C</p> <p>FfG-C</p>
<p>Cymwysterau</p> <p>Cymhwyster proffesiynol mewn gwaith cymdeithasol, gwaith ieuentid a chymunedol neu ddisgyblaeth gysylltiedig megis lechyd ac Addysg.</p> <p>Cymhwyster Rheoli neu barodrwydd i weithio tuag at un</p>	<p>D</p> <p>H</p>	<p>FfG-D</p> <p>FfG-D</p>
<p>Arall</p> <p>Y gallu i siarad Cymraeg</p> <p>Trwydded Yrru Lawn</p>	<p>D</p> <p>H</p>	<p>FfG</p> <p>FfG</p>

ATODIAD 1- Ymarferydd Dulliau Adferol Cyfarfod Grŵp Teulu – Rheolwr

Meini Prawf Hanfodol

Mae'r meini prawf profiad canlynol yn hanfodol ar gyfer y swydd. Dylech ddangos sut yr ydych yn bodloni'r meini prawf sydd wedi eu nodi yn y golofn ar yr ochr dde wrth ateb. Y cwestiynau ar y Ffurflen Gais.	
	Rydym yn chwilio am dystiolaeth o'ch profiad o:
A. Profiad	<ul style="list-style-type: none">• Weithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd mewn sefyllfaoedd cymhleth gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar gryfderau• Rheoli a goruchwyllo staff• Rheoli a datblygu prosiect/gwasanaeth
	Rydym yn chwilio am dystiolaeth o'r hyn yr ydych yn ei wybod a'i ddeall am-
B. Sgiliau, Gwybodaeth a Dealltwriaeth	<ul style="list-style-type: none">• Rheolaeth ac arweinyddiaeth• Teuluoedd a dymameg teuluoedd• Digartrefedd• Cyfarfodydd Grwpiau Teulu / Ymarfer Adferol• Diogelu